# Sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol

## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth: 205/2019
Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020
Disodli dogfen wybodaeth rhif: 196/2017

# Sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol

**Cynulleidfa**

Penaethiaid sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru; penaethiaid sefydliadau addysg bellach arbenigol; pobl ifanc; rhieni/gofalwyr; Gyrfa Cymru; awdurdodau addysg lleol; adrannau gwasanaethau cymdeithasol; byrddau iechyd lleol a sefydliadau eraill â buddiant.

**Trosolwg**

Mae’r ddogfen hon yn egluro’r broses a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar gyllid ar gyfer lleoliadau i bobl ifanc 16-25 oed ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol.

**Camau i’w cymryd**

Mae’n ofynnol i bawb â buddiant roi sylw dyledus i’r polisïau a’r gweithdrefnau sydd i’w gweld yn y ddogfen hon. Rhaid nodi bod y polisi yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n cynnwys Canllawiau Technegol ar gyfer Gyrfa Cymru a Sefydliadau Addysg Bellach Arbenigol, ac y dylid eu hystyried gyda'i gilydd ar y sail hon.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Isadran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Post16ALN@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Mae’r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ifanc-ag-anawsterau-dysgu-mewn-sefydliadau-addysg-bellach-arbenigol

**Dogfennau cysylltiedig**

*Canllawiau Technegol ar gyfer Gyrfa Cymru (2020)*
*Canllawiau Technegol i Sefydliadau Addysg Bellach Arbenigol (2020)*

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 ISBN Digidol 978-1-78964-601-6 WG36826

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Cyd-destun statudol** | **5** |
| **Y broses** | **6** |
| **Cyllid** | **15** |
| **Gweithdrefnau ac ystyriaethau sy'n berthnasol i benderfyniadau cyllid** | **17** |
| **Amserlenni** | **23** |
| **Atodiad: Y cefndir statudol** | **27** |

## Cyflwyniad

1. Pwrpas y ddogfen hon yw amlinellu, er budd grwpiau â buddiant, y polisi a'r broses a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i benderfynu ar gyllid ar gyfer lleoliadau i bobl ifanc 16-25 oed ag anawsterau dysgu sydd angen mynediad at ddarpariaeth arbenigol. Mae'n cynnwys y canlynol:

    - trosolwg o gyfrifoldebau deddfwriaethol perthnasol Llywodraeth Cymru;
    - yr ystyriaethau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid ariannu lleoliadau arbenigol, pa hyd i'w ariannu, a ddylid ariannu newidiadau i raglenni astudio sydd eisoes wedi cychwyn, a ddylid ariannu estyniadau i raglen astudio a gytunwyd, ac a ddylid ariannu rhaglenni astudio ychwanegol
    - ystyriaethau allweddol ynglŷn â gwaith monitro Llywodraeth Cymru o unrhyw leoliadau a gytunwyd;
    - trosolwg o'r amserlenni y bydd Llywodraeth Cymru a phartïon eraill sydd â buddiant yn ceisio eu gweithredu.

    Bydd y rheini â diddordeb yn yr wybodaeth sydd yn y ddogfen hon yn cynnwys (ymysg eraill) yr unigolion eu hunain, eu rhieni/gofalwyr, prifathrawon neu benaethiaid sectorau a sefydliadau addysg bellach prif ffrwd/arbenigol, Gyrfa Cymru, adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

2. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu polisi addysg gynhwysol i bob plentyn a pherson ifanc, waeth beth fo'u hanghenion a'u cefndir. Mae hyn yn berthnasol yn yr un modd i ysgolion prif ffrwd ac i sefydliadau addysg bellach prif ffrwd. Mae Llywodraeth Cymru yn credu, mewn perthynas ag addysg ôl-16, y dylid rhoi mynediad cyfartal i bob person ifanc ag anhawster dysgu (gweler yr adran ar y cyd-destun statudol ar dudalen 5 am ddiffiniad) i addysg bellach mewn sefydliad addysg bellach prif ffrwd, drwy ddarparu'r opsiynau cynhwysol sydd ar gael yn lleol i ddiwallu eu hanghenion. Felly mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd sefydliadau addysg bellach prif ffrwd yn mynd ati fel mater o drefn i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd ag anhawster dysgu.

3. Fodd bynnag, polisi cyllid Llywodraeth Cymru (fel y mae yn y ddogfen bolisi hon) yw ariannu'r ddarpariaeth arbenigol sy'n ofynnol ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd ag anawsterau dysgu, rhwng 16 a 25 oed, ac sydd am ddilyn rhaglen addysg ôl-16 ond sydd methu â chael mynediad at y ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol[1] i ddiwallu eu hanghenion o ran addysg a hyfforddiant[2] drwy ddarpariaeth addysg bellach prif ffrwd. Gallai hyn gynnwys llety preswyl hefyd. Polisi Llywodraeth Cymru yw ariannu'r hyd gofynnol yn seiliedig ar allu'r person ifanc i ddatblygu a chyflawni yn erbyn ei ddeilliannau o ran addysg a hyfforddiant[3]. I'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n cael mynediad at ddarpariaeth sy'n arbenigol, bydd yr hyd yn gymharol â hyd y ddarpariaeth sydd ar gael mewn sefydliadau addysg bellach prif ffrwd, h.y. dwy flynedd academaidd.

---

[1] Gweler paragraff 52 am eglurhad o ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion person ifanc o ran addysg a hyfforddiant.
[2] Gweler paragraff 52 am eglurhad o anghenion person ifanc o ran addysg a hyfforddiant.
[3] Nodir canlyniadau o ran addysg a hyfforddiant fel rhan o ddarpariaeth person ifanc y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol i ddiwallu ei anghenion o ran addysg a hyfforddiant.

4. Nid nod y polisi hwn yw rhoi naill ai dewis amgen i'r person ifanc na seibiant ar gyfer ei deulu na lleddfu'r trefniadau cymorth nad ydynt ar gael o reidrwydd drwy wasanaethau cymorth eraill; y bwriad yw ei wneud yn ddull teg er mwyn sicrhau darpariaeth i ddiwallu anghenion pobl ifanc a nodwyd o ran addysg a hyfforddiant. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r polisi hwn ar waith.

5. Nid bwriad y ddogfen hon yw bod yn ganllaw ar gyfer asesu anghenion person ifanc. Nid cyfres ydyw chwaith o ofynion caeth y mae'n rhaid eu cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn arfer eu pwerau mewn ffordd hyblyg a chyfrifol er mwyn cyflawni'r amcan hwn.

6. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru wahodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddisodli'r gyfraith bresennol sy'n ymwneud ag addysg ôl-16 i bobl ifanc ag anawsterau dysgu â deddfwriaeth i gefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Pasiwyd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2016, ac fe ddaeth yn Ddeddf ar 24 Ionawr 2018 ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Disgwylir i'r Ddeddf[4] ddechrau cael ei rhoi ar waith fesul cam o fis Medi 2021 ymlaen. Fodd bynnag, tan i'r newid hwn ddigwydd, bydd y gyfraith bresennol yn parhau mewn grym.

7. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r polisi hwn wrth wneud penderfyniadau ar unrhyw geisiadau am gyllid. Fodd bynnag, os bydd gwneud hynny'n torri addewid clir a diamwys o gyllid a roddwyd yn flaenorol (cyn y ddogfen bolisi hon), bydd Llywodraeth Cymru yn anrhydeddu'r addewid hwnnw, pe bai'n anghymesur i beidio â gwneud hynny.

## Darpariaeth addysg bellach

8. Mae bron i bob sefydliad addysg bellach[5] yn cynnig darpariaeth[6] ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth arbenigol ar wahân a all helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol, i baratoi ar gyfer gwaith neu i symud i gyfleoedd dysgu prif ffrwd, fel rhaglenni galwedigaethol sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer gwaith yn y maes o'u dewis (e.e. rhaglenni fel 'Cyflogadwyedd' a 'Datblygiad Personol').

9. Mae sefydliadau addysg bellach prif ffrwd (gyda chyllid cymorth dysgu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru) yn darparu cymorth amrywiol, fel cymorth staff un i un, i alluogi pobl ifanc ag anawsterau dysgu i gael mynediad at raglenni galwedigaethol neu addysgol cyffredinol wrth ochr eu cymheiriaid.

10. Fodd bynnag, weithiau mae anghenion cyfannol person ifanc yn rhy gymhleth i gael eu diwallu gan y sefydliad addysg bellach prif ffrwd yn unig. Yn yr achosion hyn, fe'i hystyrir yn arfer da i sefydliadau prif ffrwd ac arbenigol addysg bellach ymgysylltu â'i

---

[4] Mae Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cynnwys darpariaeth i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i sicrhau darpariaeth arbenigol o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a darpariaeth ar gyfer yr hawl i apelio i bobl ifanc mewn addysg ôl-16. Bydd y darpariaethau hyn yn disodli'r prosesau a nodir yn y ddogfen hon yn eu cyfanrwydd.
[5] Ystyr sefydliad addysg bellach prif ffrwd yw sefydliad yn y sector addysg bellach nad yw wedi'I drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer unigolion ag anawsterau dysgu
[6] Caiff ansawdd a safonau darpariaeth sefydliadau addysg bellach prif ffrwd eu harolygu gan Estyn/Ofsted.

gilydd ynglŷn â'r unigolion hyn er mwyn sicrhau y gellir sefydlu a chyflawni'r ddarpariaeth angenrheidiol. Mae sefydliadau addysg bellach arbenigol ar gael i helpu pobl ifanc i gael mynediad at ddarpariaeth addysg bellach prif ffrwd neu i ddarparu darpariaeth addysgol arbenigol yn benodol i'r bobl ifanc hyn yn uniongyrchol. Mae sefydliadau addysg bellach arbenigol[7] i'w gweld yn bennaf yn y sector annibynnol felly ni fyddant yn cael cyllid rheolaidd gan Lywodraeth Cymru fel mater o drefn. Felly, darperir cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau darpariaeth ar gyfer unigolion yn y sefydliadau hyn.

[7] Ystyr sefydliad addysg bellach arbenigol yw sefydliad sydd wedi'i drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant ôl-16 i unigolion ag anawsterau dysgu.

## Cyd-destun statudol

11. Ystyrir bod gan unigolyn anhawster dysgu:
(a) os yw'n ei chael yn sylweddol anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o unigolion ei oedran, neu,
(b) os oes ganddo anabledd sydd naill ai'n ei atal neu'n rhwystr iddo rhag defnyddio'r math o gyfleusterau a ddarperir yn gyffredinol gan sefydliadau sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ôl-16 (gweler adran 41(5) o Ddeddf 2000 Act")).

12. Ni ddylid ystyried bod gan rywun anhawster dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith (neu'r math o iaith) y cânt eu haddysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu'r math o iaith) sydd wedi'i siarad ar unrhyw adeg yn eu cartref[8].

13. Mae swyddogaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sicrhau'r ddarpariaeth o gyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant ac ar gyfer ariannu lleoliadau, yn cynnwys rhai mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol, wedi'u nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 ('Deddf 2000'), ac mae'r prif ddarpariaethau wedi'u crynhoi yn Atodiad A.

14. Yn gryno, mae rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth cyfleusterau amrywiol ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ac mae ganddynt bwerau i ariannu pobl ifanc a sefydliadau addysg bellach. Wrth arfer y swyddogaethau hyn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw dyledus i anghenion unigolion ag anawsterau dysgu ac yn benodol, i unrhyw adroddiad o asesiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei drefnu dan adran 140 o Ddeddf 2000. Mae'n rhaid trefnu'r asesiadau hynny ar gyfer pobl ifanc sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac sy'n gadael ysgol i fynd i addysg bellach. Gellir eu trefnu ar gyfer pobl ifanc mewn amgylchiadau eraill hefyd. Mae'r polisi a'r canllawiau sy'n gysylltiedig â hyn i'w gweld yn *'Canllawiau Technegol i Gyrfa Cymru*[9]*'.*

15. Os na all Llywodraeth Cymru sicrhau y darperir y cyfleusterau cywir ar gyfer addysg a hyfforddiant i bobl ifanc ag anawsterau dysgu oni bai eu bod hefyd yn sicrhau y darperir llety preswyl, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau y darperir llety preswyl.

## Crynodeb o'r effaith

16. O'u cymryd gyda'i gilydd, un o effeithiau ymarferol adrannau 31, 32, 41 a 140 o Ddeddf 2000 yw ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried a ddylent gyllido lleoliad person ifanc sydd ag anawsterau dysgu mewn sefydliad addysg bellach arbenigol pan nad oes modd sicrhau darpariaeth addas mewn sefydliad addysg bellach prif ffrwd.

---

[8] Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 41(6).
[9] https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ag-anawsterau-dysgu-canllawiau-ar-gyfer-gyrfa-cymru

# Y broses

## Trosolwg

17. Mae Gyrfa Cymru[10] yn cynnal asesiad o'r person ifanc ac yn llunio adroddiad (a elwir yn Gynllun Dysgu a Sgiliau) o anghenion yr unigolyn o ran addysg a hyfforddiant a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i'w diwallu. Dylai hyn gynnwys y canlyniadau y mae'r person ifanc yn eu dymuno sy'n gysylltiedig â'i ddyheadau yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad am y ddarpariaeth a'r lleoliad angenrheidiol. Bydd yr asesiad a'r Cynllun Dysgu a Sgiliau yn cael ei lywio gan wybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys y person ifanc, ei rieni/gofalwyr, ysgol gyfredol neu flaenorol y person ifanc, sefydliadau addysgol prif ffrwd ac arbenigol perthnasol, unrhyw gorff iechyd neu wasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud ag anghenion yr unigolyn, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

18. Unwaith y mae'r Cynllun Dysgu a Sgiliau wedi'i gwblhau, mae Gyrfa Cymru yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ynghyd â chais y person ifanc am gyllid ac unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol arall.

19. Wrth benderfynu a ddylid ariannu lleoliad, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais am gyllid, a byddant yn rhoi sylw penodol i'r Cynllun Dysgu a Sgiliau.

20. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad yn brydlon ac yn rhoi gwybod i'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr, a Gyrfa Cymru cyn belled ag y gwneir penderfyniad (gweler yr adran ar amserlenni ar dudalen 23).

## Sut y gwneir penderfyniadau ariannu

21. Mae proses Llywodraeth Cymru ar gyfer penderfynu a ddylid ariannu lleoliadau mewn sefydliadau Addysg Bellach arbenigol yn seiliedig ar yr egwyddorion a'r amcanion canlynol:

- Mae'n rhaid i rwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru (gan gynnwys ystyriaeth o'r adnoddau sydd ar gael, lle'n briodol) gael eu bodloni;
- Bydd pobl ifanc yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal; ac ystyrir pob achos yn unigol;
- Bydd buddiannau gorau'r unigolyn yn cael eu hystyried;
- Bydd safbwyntiau a dymuniadau pobl ifanc yn cael eu hystyried;
- Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol ar draws Cymru yn cael ei blaenoriaethu, lle mae'n briodol ac yn rhesymol gwneud hynny;
- Gwneir penderfyniad cytbwys yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r cyngor;
- Bydd penderfyniadau'n cael eu cyfathrebu'n llawn i'r person ifanc a phartïon eraill sydd â buddiant, fel y bo'n briodol;
- Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn brydlon.

[10] Mae Gyrfa Cymru yn gwmni a sefydlwyd gan, ac sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru er mwyn darparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth annibynnol am yrfaoedd i bobl o bob oed yng Nghymru.

22. Er y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dymuniadau'r person ifanc, ei deulu a/neu ei ofalwyr, nid oes ganddi ddyletswydd statudol i ariannu'r ddarpariaeth arbenigol o'u dewis ac nid oes ganddi ddyletswydd statudol chwaith i ariannu hyd y rhaglen o'u dewis. Os yw Llywodraeth Cymru yn penderfynu darparu cyllid ac yn fodlon y gall lleoliad neu hyd y rhaglen nad yw'n ddewis cyntaf y person ifanc o reidrwydd, ddiwallu anghenion yr unigolyn o ran addysg a hyfforddiant yn realistig, yna gall gynnig y cyllid ar gyfer y lleoliad amgen; gallai hyn, er enghraifft, olygu lleoliad mewn sefydliad addysg bellach prif ffrwd gyda rhywfaint o drefniadau cymorth ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith naill ai drwy'r sefydliad addysg bellach prif ffrwd neu wedi'i ariannu ar wahân drwy asiantaethau lleol fel y gwasanaethau cymdeithasol.

## Cysylltu â Gyrfa Cymru

23. Cyflwynir ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru drwy Gyrfa Cymru. Bydd gan rai ymgeiswyr ddatganiadau AAA yn eu hysgolion presennol, ac felly byddant eisoes mewn cysylltiad â Gyrfa Cymru eisoes drwy'r broses flynyddol o adolygu eu datganiad AAA. Yn yr achosion hyn, bydd Gyrfa Cymru yn parhau i gynorthwyo'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr drwy'r broses ymgeisio. Bydd angen i ymgeiswyr mewn achosion eraill gysylltu â Gyrfa Cymru[11] er mwyn dechrau'r broses o ymgeisio am gyllid.

## Asesiad Adran 140 (Cynllun Dysgu a Sgiliau)

24. Er mwyn penderfynu a ddylid ariannu lleoliad, yn gyntaf mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w diwallu. Yn gyffredinol, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu'r gwaith o gynnal asesiad, a bydd wedi trefnu i Gyrfa Cymru gynnal yr asesiadau hyn ar ei rhan. Fel arfer mae hyn yn rhan o'r broses o bontio yn ystod blwyddyn olaf y person ifanc mewn addysg orfodol. Wrth wneud penderfyniadau am sicrhau a chyllido lleoliad, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried adroddiad yr asesiad, ynghyd â'r holl faterion perthnasol eraill, gan gynnwys unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a gasglwyd gan Gyrfa Cymru gydol y broses asesu.

25. Y cam cyntaf wrth fynd ati i ystyried a ddylid ariannu lleoliadau arbenigol yw asesiad o dan adran 140 Deddf 2000. Asesiad adran 140 yw asesiad sy'n arwain at Gynllun Dysgu a Sgiliau, sy'n nodi anghenion person ifanc ôl-16 o ran addysg a hyfforddiant a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i'w diwallu.

26. Fel arfer, cynhelir yr asesiadau hyn yn unol â dyletswydd Llywodraeth Cymru i drefnu asesiadau ar gyfer pobl ifanc sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig y mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddant yn gadael yr ysgol ar ddiwedd eu blwyddyn olaf o addysg orfodol i gael addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu addysg uwch. Gellir cynnal asesiad hefyd ar berson ifanc y mae'n ymddangos bod ganddo anhawster dysgu, sydd dros yr oedran ar gyfer addysg orfodol ond sydd o dan 25 oed, ac sy'n cael, neu'n debygol o gael addysg neu hyfforddiant ôl-16.

27. Ar gyfer pobl ifanc sydd yn yr ysgol, caiff asesiadau adran 140 eu cynnal gan Gyrfa Cymru ar ran Llywodraeth Cymru yn ystod eu blwyddyn olaf o addysg orfodol. Bydd Gyrfa Cymru yn darparu asesiad yn awtomatig pan fo gan y person ifanc ddatganiad anghenion addysgol arbennig a phan fo person ifanc yn cael cymorth Gweithredu Gan

---

[11] http://www.gyrfacymru.com

yr Ysgol neu gymorth Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy a phan fo wedi bod yn destun proses adolygu blynyddol a/neu bontio sy'n cyd-fynd[12] â'r un a gynhelir ar gyfer y rhai sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

28. Gall unrhyw berson ifanc arall, neu unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran, gysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn iddynt gynnal asesiad os ydynt yn credu bod gan y person ifanc anhawster dysgu a'i fod yn hŷn na'r oedran addysg orfodol ond o dan 25 oed, ac mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 ar hyn o bryd neu ar fin cychwyn.

29. Os yw'r asesiad yn ymwneud â pherson ifanc sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, bydd yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer pontio sy'n gysylltiedig â datganiadau o'r fath gan gwblhau'r broses honno i bob pwrpas.

30. Mae'r broses gynllunio ar gyfer pontio i'w gweld yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ( Llywodraeth Cymru[13] 2004) ac mae'n cychwyn ym Mlwyddyn 9. Mae angen i
Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys asiantaethau amrywiol yn gynnar yn y broses bontio AAA, er mwyn i gynlluniau gofal ac asesiadau amlddisgyblaethol perthnasol gael eu paratoi, a allai gynnwys darparu cyfleusterau addysg bellach, a chyfrannu at Gynllun Trawsnewid person ifanc. Fodd bynnag, mae'n rhaid cynllunio'r gwaith pontio a/neu adolygu blynyddol mewn ffordd ddiduedd a theg sy'n canolbwyntio ar unigolion. Felly, dylai cyfarfod(ydd) adolygu Blwyddyn 9 ac 11 ar gyfer y person ifanc hwnnw gynnwys y rhai a nodir yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig yn unig. Fel arfer, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau addysg bellach arbenigol fod yn rhan weithredol o gyfarfodydd adolygu gan y byddai'n anodd parhau'n ddiduedd wrth drafod dewisiadau priodol a'r hyn sydd ar gael ar gyfer y person ifanc.

31. Pan fo trefniadau ar gyfer asesiad wedi'u gwneud, dylid cwblhau'r asesiad hwnnw mor gyflym ag sy'n rhesymol bosibl er mwyn helpu person ifanc i ystyried ei opsiynau ar gyfer addysg bellach ac i sicrhau y gellir gwneud trefniadau priodol. Disgwylir i asesiadau adran 140 gael eu cwblhau ar ddiwedd tymor academaidd y gwanwyn ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n disgwyl cychwyn addysg a hyfforddiant ôl-16 ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, h.y. y mis Medi canlynol.

32. Cynhelir yr asesiad mewn cydweithrediad â'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr a chydag allbwn cynnar priodol gan asiantaethau perthnasol eraill gan gynnwys yr awdurdod lleol, yr ysgol, gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, sefydliadau addysg bellach prif ffrwd ac ati. Er mwyn cynnal yr asesiad adran 140, gall Gyrfa Cymru fod angen gofyn i'r awdurdod lleol, yr ysgol neu asiantaethau perthnasol eraill am gopïau o wybodaeth/tystiolaeth berthnasol a chyfredol sy'n ymwneud ag anghenion cyfannol y person ifanc. Mae hyn yn cynnwys datganiad AAA diweddaraf y person ifanc, lle y bo'n briodol. Mae gan y person ifanc a'i rieni/gofalwyr y rhyddid i roi unrhyw wybodaeth y maen nhw'n meddwl sy'n berthnasol i'r asesiad a bydd yn cael ei

---

[12] Bydd yn 'cyd-fynd' oherwydd rhagwelir y bydd y broses o adolygu blynyddol a/neu bontio ar gyfer person ifanc sy'n cael cymorth 'Gweithredu Gan yr Ysgol' neu gymorth 'Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy' yn cynnwys mewnbwn amlddisgyblaethol, yn yr un ffordd ag y mae adolygiad o ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig yn cynnwys mewnbwn amlbroffesiynol.

[13] Caiff Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ei gyhoeddi yn unol ag adran 313 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran IV y Ddeddf Addysg 'Anghenion Addysgol Arbennig') o'r Ddeddf i roi sylw i ddarpariaethau'r Cod.

hystyried gan Gyrfa Cymru wrth iddo wneud penderfyniad gwybodus am anghenion cyfannol y person ifanc a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w diwallu.

33. Pan fo tystiolaeth annigonol neu dystiolaeth sy'n gwrthdaro, gall Llywodraeth Cymru, yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, drefnu i seicolegydd addysgol gynnal yr asesiad adran 140. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar ganlyniad yr asesiad hwnnw.

34. Bydd addasrwydd yr holl ddarpariaeth sydd ar gael, boed yn lleol neu fel arall, yn rhan o'r broses asesu. Fodd bynnag, disgwylir i'r ddarpariaeth sydd ar gael ledled Cymru gael ei blaenoriaethu er mwyn sicrhau y gall person ifanc gynnal cysylltiad agosach â'u teuluoedd a'u cymunedau. Mae barn y sefydliad addysg bellach prif ffrwd ynghylch i ba radau y gall ddiwallu anghenion person ifanc yn rhan bwysig o'r broses asesu. Felly mae'n hanfodol bod sefydliadau addysg bellach prif ffrwd yn ymwneud yn gynnar â'r gwaith o gynllunio'r broses o bontio a'r broses asesu adran 140 ddilynol. Fodd bynnag, nid oes angen i'r person ifanc ymweld â'r sefydliad addysg bellach bob tro er mwyn i'r sefydliad addysg bellach prif ffrwd lleol benderfynu a all ddiwallu anghenion person ifanc. Pan fo gan berson ifanc anghenion cymhleth a chyfannol sylweddol, gallai'r sefydliad addysg bellach prif ffrwd benderfynu ei bod yn amlwg na allent ddarparu'r ddarpariaeth angenrheidiol a hynny ar sail disgrifiad manwl o anghenion yr unigolyn; yn yr amgylchiadau hyn. Mae'n debygol na fyddai'n cael ei hystyried yn angenrheidiol i'r person ifanc ymweld â'r lleoliad.

35. Pan sefydlir na ellir diwallu anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant yn y sector addysg bellach prif ffrwd, dylid ystyried darpariaeth mewn sefydliad(au) addysg bellach arbenigol lleol neu fel arall. Yn yr achosion hyn, mae'n hanfodol bod y sefydliad addysg bellach arbenigol yn ymgysylltu'n llawn â'r broses asesu adran 140 er mwyn i Gyrfa Cymru sefydlu'r ddarpariaeth ofynnol sydd ei hangen a deall sut bydd y ddarpariaeth hon yn diwallu anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys y ffordd y mae'r ddarpariaeth a sefydlwyd yn cysylltu â dyheadau'r person ifanc yn y dyfodol hefyd. Wrth ymgysylltu â'r broses asesu adran 140, bydd yn hanfodol i sefydliadau addysg bellach arbenigol gael mynediad at y wybodaeth berthnasol ar gyfer y person ifanc hwnnw, fel sydd yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau, er mwyn nodi'r ddarpariaeth a ystyrir yn angenrheidiol.

36. Dylai Cynllun Dysgu a Sgiliau ddeillio o'r asesiad, a fydd yn nodi'r canlynol:

- anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant.
- y ddarpariaeth resymol a realistig a'r hyd rhaglen sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu'r anghenion hynny;
- cyflawniadau blaenorol o ran addysg a hyfforddiant;
- rhesymau pam mae sefydliad addysg bellach penodol wedi'i ddewis fel sefydliad sy'n gallu diwallu anghenion y person ifanc;
- rhesymau pam mae gallu person ifanc yn golygu bod angen rhaglen o hyd penodol er mwyn darparu'r ddarpariaeth a ystyrir yn angenrheidiol.
- y canlyniadau a ddymunir gan y person ifanc sy'n gysylltiedig â'u dyheadau yn y dyfodol, fel cyflogaeth neu fyw'n rhannol-annibynnol/annibynnol a sut bydd y ddarpariaeth a nodwyd yn paratoi'r person ifanc i gyflawni'r canlyniadau hyn.

37. Dylai'r Cynllun Dysgu a Sgiliau nodi'r hyn y gellir ei ddarparu a'i gyflawni'n realistig mewn gwirionedd, nid yr hyn sy'n ddelfrydol neu'r hyn fyddai'n dda mewn egwyddor. Mae'n rhaid i Gyrfa Cymru fod yn fodlon bod y ddarpariaeth a bennir yn rhesymol, yn

realistig, ac yn seiliedig ar allu'r person ifanc, ac y gall yr unigolyn, mewn gwirionedd ei gyflawni. Mae'n rhaid i Gyrfa Cymru ddod i'r penderfyniad hwnnw pan wneir yr asesiad ac wrth adrodd amdano. Mae angen i'r Cynllun Dysgu a Sgiliau wneud argymhelliad am y lleoliad, gan gynnwys y cwrs/rhaglen astudio angenrheidiol a'i hyd. Bydd cynnwys a manylder yr adroddiad yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, ond mae'n rhaid i'r adroddiad adlewyrchu'n rhesymol, ac yn ddigon clir a dealladwy, gasgliadau pennaf a phwysicaf yr asesiad yn seiliedig ar safbwynt proffesiynol y cynghorydd gyrfaoedd.

38. Dylid cynnwys y person ifanc gydol y broses asesu a dylid gwneud pob ymdrech resymol er mwyn sicrhau bod y person ifanc a'i rieni/gofalwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Unwaith mae'r asesiad wedi'i gwblhau, mae'n rhaid i Gyrfa Cymru gael caniatâd y person ifanc neu ei rieni/gofalwyr (lle y bo'n briodol) i rannu canlyniad terfynol yr asesiad â Llywodraeth Cymru, sefydliadau addysg bellach prif ffrwd/arbenigol perthnasol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol/byrddau iechyd lleol (BILIau) perthnasol (lle bo hynny'n gymwys). Os nad yw'n rhoi caniatâd, ni fydd Llywodraeth Cymru yn gallu ystyried cais dilynol am gyllid, ac ni fydd asiantaethau eraill yn gallu ymgysylltu â'i gilydd mewn perthynas â diwallu anghenion y person ifanc hwnnw.

## Cyflwyno ceisiadau am gyllid

39. Pan fo asesiad adran140 yn nodi angen am leoliad mewn sefydliad addysg bellach arbenigol, mae'n rhaid i Gyrfa Cymru gyflwyno cais am gyllid, y Cynllun Dysgu a Sgiliau a thystiolaeth ategol i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Pan fo asesiad yn nodi darpariaeth heblaw darpariaeth arbenigol, bydd y Cynllun Dysgu a Sgiliau yn cael ei gyflwyno i'r sefydliad addysg bellach prif ffrwd a enwyd fel y gall wneud trefniadau priodol er mwyn trefnu cymorth.

40. Mae Gyrfa Cymru yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer y person ifanc a'i rieni/gofalwyr ym mhroses asesu adran140 ac mewn unrhyw gais a wneir. Felly dylai Gyrfa Cymru sicrhau bod y person ifanc a'i rieni/gofalwyr yn gwbl ymwybodol o'r ffeithiau a manteision/anfanteision unrhyw ddarpariaeth benodol. Fodd bynnag, waeth a yw'r Cynllun Dysgu a Sgiliau yn sefydlu bod darpariaeth prif ffrwd yn ofynnol ai peidio, ni all Gyrfa Cymru wrthod cyflwyno cais am gyllid i Lywodraeth Cymru os yw'r person ifanc a/neu ei rieni/gofalwyr yn dymuno hynny. Dylai Gyrfa Cymru sicrhau yn yr achosion hyn bod y person ifanc a'i rieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r ffactorau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried wrth benderfynu ar gais, fel yr amlinellir yn y ddogfen hon. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i'r cais a'r dystiolaeth ategol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol, gan gynnwys unrhyw beth y mae'r person ifanc neu ei rieni/gofalwyr am ei ddarparu.

41. Pan fo'r cais a/neu'r Cynllun Dysgu a Sgiliau yn gyflawn ond nad oes digon o fanylion ynddo neu os nad yw'r dystiolaeth ategol yn ddigonol i Lywodraeth Cymru allu penderfynu a ellir rhoi cyllid, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ymholiadau rhesymol i gael gafael ar y dystiolaeth angenrheidiol a/neu gomisiynu asesiad newydd ar gyfer y person ifanc. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ystyried cais am gyllid os yw'r cais neu'r Cynllun Dysgu a Sgiliau ategol yn cael ei ystyried yn anghyflawn, e.e. pan fo adrannau'n wag neu ddim yn cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol. Pan fo cais neu Gynllun Dysgu a Sgiliau yn anghyflawn, bydd yn cael ei ddychwelyd i Gyrfa Cymru. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chyflwyno er mwyn atal unrhyw oedi diangen wrth wneud penderfyniadau.

42. Os yw Llywodraeth Cymru wedi'i hysbysu am bryder diogelu mewn sefydliad addysg bellach arbenigol, gall Llywodraeth Cymru fod angen sicrwydd ychwanegol bod safonau diogelu addas ar waith i amddiffyn pobl ifanc. Yn yr amgylchiadau hyn, gellir gohirio gwneud penderfyniad am gais tan y bydd y sicrwydd angenrheidiol wedi'i derbyn.

43. Dylai'r Cynllun Dysgu a Sgiliau fod yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf. Felly, dylai'r Cynllun Dysgu a Sgiliau a thystiolaeth ategol allweddol fod mor gyfredol â phosibl ac ni ddylai fod wedi'i lunio fwy na blwyddyn cyn dyddiad derbyn y cais os oes modd. Ni ddylid gwneud cais am gyllid fwy nag un flwyddyn academaidd cyn dechrau'r lleoliad.

44. Mewn amgylchiadau pan fo'r person ifanc, ei rieni/gofalwyr neu bartneriaid darparu gwasanaethau yn ailystyried opsiynau ar ôl cyflwyno cais, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw'n briodol dychwelyd y cais i Gyrfa Cymru tan y bydd yr hyn sy'n cael ei ailystyried yn cael ei ddatrys. Os yw canlyniad y broses hon o ailystyried yn parhau i nodi angen am ddarpariaeth arbenigol, yna bydd Gyrfa Cymru yn gyfrifol am ailgyflwyno'r cais, ynghyd â'r holl wybodaeth ategol angenrheidiol a chyfredol, gan gynnwys yr hyn sy'n ymwneud â'r hyn a ailystyriwyd.

45. Wrth nodi'r ddarpariaeth sydd ei hangen a'r sefydliad priodol lle y dylid ei darparu, bydd Gyrfa Cymru'n ymdrechu, trwy drafod gyda'r lleoliad addysg bellach prif ffrwd/arbenigol dan sylw, i neilltuo'r lleoliad am gyfnod dros dro. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes cais am gyllid yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer person ifanc y gallai ei anghenion o bosibl gael eu diwallu gan sefydliad addysg bellach prif ffrwd hefyd o bosibl. Mae'n rhaid iddi fod yn gwbl eglur i Lywodraeth Cymru bod lle mewn lleoliad penodol ar gael ar gyfer y person ifanc wrth wneud penderfyniad. Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo lleoliad yn peidio â bod ar gael yn annisgwyl ar ôl cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i Gyrfa Cymru chwilio am ddewis arall a fydd yn diwallu anghenion y person ifanc.

46. Unwaith y sefydlir y gellid diwallu anghenion person ifanc drwy ddarpariaeth addysg bellach prif ffrwd mae'n rhaid i Gyrfa Cymru wneud pob ymdrech i nodi dewis amgen addas yn rhywle arall yn y sector addysg bellach prif ffrwd os bydd y lleoliad gwreiddiol yn peidio â bod ar gael cyn penderfynu ar y cais am gyllid. Mae Llywodraeth Cymru yn annhebygol o ariannu lleoliad mewn sefydliad addysg bellach arbenigol am y rheswm nad yw'r lleoliad gwreiddiol bwriedig mewn sefydliad addysg bellach prif ffrwd penodol ar gael bellach.

47. Dylai person ifanc gychwyn lleoliad ar ddechrau tymor academaidd llawn, lle y bo'n briodol. Gellir cyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer lleoliad sy'n cychwyn ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd o'r mis Hydref blaenorol ymlaen. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i wneud penderfyniad ar gais am gyllid o fewn cyfnod o chwe wythnos. Pan gyflwynir ceisiadau am gyllid ar gyfer lleoliadau sy'n cychwyn ar ddyddiad amgen, (y tu allan i'r flwyddyn academaidd newydd), mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r tymor academaidd priodol y gall y lleoliad gychwyn ynddo (gweler yr adran ar Amserlenni ar dudalen 23).

48. Nid yw cynnig o leoliad gan sefydliad addysg bellach arbenigol gan unrhyw swyddog o sefydliad heblaw Llywodraeth Cymru yn sicrwydd o gyllid.

## Meini prawf i'w hystyried

49. Wrth benderfynu ynghylch y cais am gyllid, bydd Llywodraeth Cymru'n cymhwyso'r egwyddorion a'r amcanion cyffredinol a amlinellir ym mharagraff 21. Yn benodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y cais, y Cynllun Dysgu a Sgiliau a'r dystiolaeth a'r cyngor ategol a gasglwyd gan Gyrfa Cymru; ac unrhyw dystiolaeth arall y mae'n ei hystyried yn berthnasol.

50. Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu lleoliad dydd ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach arbenigol os yw'n ystyried bod darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol er mwyn i'r unigolyn allu cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant. Dim ond pan nad oes unrhyw ffordd realistig arall o roi mynediad effeithiol i'r person ifanc i'r ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn o ran addysg a hyfforddiant, y bydd darpariaeth arbenigol yn angenrheidiol ym marn Llywodraeth Cymru fel arfer.

51. Yr unig adeg y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu llety preswyl yw pe bai'r person ifanc yn methu cael mynediad at y ddarpariaeth arbenigol y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol er mwyn diwallu ei anghenion o ran addysg a hyfforddiant, heb y llety preswyl hwnnw.

52. Man cychwyn Llywodraeth Cymru yw mai'r ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion dynodedig y person ifanc yw'r ddarpariaeth a nodwyd yn y cynllun dysgu a sgiliau; ac mai anghenion dynodedig y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant yw'r rhai a nodwyd yn y cynllun dysgu a sgiliau (a dyma yw ystyr y termau hynny wrth eu defnyddio yn y ddogfen hon). Mae'n annhebygol y byddai Llywodraeth Cymru yn ffafrio canfyddiadau asesiad a gynhaliwyd gan rywun heblaw Gyrfa Cymru heb resymau cadarn a grymus dros wneud hynny.

53. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i'r holl wybodaeth berthnasol sydd ganddi a bydd yn ystyried yn benodol y canlynol:

- a yw'r holl dystiolaeth yn dangos bod darpariaeth arbenigol yn hanfodol i ddiwallu anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant;
- a oes opsiynau eraill ar gael, drwy sefydliadau addysg bellach prif ffrwd lleol, gan gynnwys pecynnau cymorth (hynny yw, gydag Awdurdodau Lleol neu ddarparwyr eraill);
- a yw'r dystiolaeth yn dangos mai'r unig le y gellir darparu elfen hanfodol o anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc yw mewn sefydliad addysg bellach arbenigol gyda llety preswyl;
- a oes angen lleoliad addysgol gyda chwricwlwm estynedig ar y person ifanc na ellir ei ddarparu mewn sefydliad addysg bellach heb lety preswyl;
- a oes gan y person ifanc anghenion meddygol a/neu anghenion gofal cymdeithasol na ellir eu diwallu mewn sefydliad addysg bellach prif ffrwd gan ddarparwyr lleol neu mewn cydweithrediad â nhw, ac a fyddai'n atal y person ifanc rhag cael mynediad at addysg neu hyfforddiant sy'n addas ar gyfer diwallu ei anghenion dynodedig;
- a oes caniatâd dilys i'r lleoliad wedi'i drefnu (gweler yr adran ar Gydsynio i leoliadau ar dudalen 14);
- a oes rhaglen astudio glir a realistig wedi'i nodi sy'n diwallu anghenion y person ifanc, ac a oes dadansoddiad clir o'r ffordd y bydd y rhaglen yn cael ei darparu

dros y cyfnod gofynnol. Dylai hyn gynnwys gwaith cynllunio priodol ar gyfer trefniadau pontio (i ac o'r sefydliad);

- a ellir darparu'r ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion y person ifanc mewn cyfnod sy'n cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu (gweler yr adran ar geisiadau cychwynnol am gyllid ar dudalen 17);
- a yw'r canlyniadau y mae'r person ifanc yn eu dymuno, sy'n gysylltiedig â'i ddyheadau yn y dyfodol, wedi'u nodi ac a fydd y rhaglen astudio a gynigir yn paratoi'r unigolyn i gyflawni'r canlyniadau hyn.
- a yw'r sefydliad yn sefydliad addysg bellach a arolygir gan Estyn neu Ofsted, ac sydd, yn ei arolygiad mwyaf diweddar, wedi cael ei ddyfarnu'n 'Foddhaol' o leiaf neu wedi cael 'Gradd 3: angen gwella' ym mhob un o'r cwestiynau allweddol. Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i dynnu cyllid yn ôl, neu beidio ag ariannu lleoliadau newydd mewn sefydliad a gafodd radd 'Anfoddhaol' neu 'Radd 4: annigonol' ar gyfer unrhyw agwedd ar ei adroddiad arolygu diweddaraf y sefydliad gan Estyn neu Ofsted:
- a yw'r sefydliad yn sefydliad preswyl a arolygir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CAG), ac sy'n gweithredu o fewn y safonau a bennwyd yn genedlaethol, yn ei arolygiad mwyaf diweddar. Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i dynnu cyllid yn ôl, neu beidio ag ariannu lleoliadau newydd mewn sefydliad lle nodwyd achosion o beidio â chydymffurfio â rheoliadau neu a gafodd radd annigonol ar gyfer unrhyw agwedd ar ei adroddiad arolygu diweddaraf gan AGC neu CAG;
- mae'r sefydliad addysg bellach arbenigol wedi cadarnhau ei allu i fodloni'r amodau ariannu fel y nodir yng 'Nghytundeb Cyllido'[14] Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i dynnu cyllid yn ôl ar gyfer lleoliadau presennol neu beidio ag ariannu lleoliadau newydd mewn sefydliad nad yw'n cadarnhau ei allu i fodloni'r gofynion, neu wedi hynny, yn methu â bodloni'r gofynion a nodir yn y 'Cytundeb Cyllido';
- os nad yw'r lleoliad y gwneir cais am gyllid ar ei gyfer yn un a argymhellwyd yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau, ac a oes rhesymau cadarn a grymus dros ariannu'r lleoliad y gwneir cais amdano.

## Rhaglenni astudio

54. Mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach arbenigol nodi rhaglen astudio glir, rhesymol a realistig sy'n diwallu anghenion dynodedig y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant fel rhan o broses asesu adran 140. Mae'n rhaid i hyn gynnwys dadansoddiad o'r hyn y disgwylir ei gyflawni ym mhob un o'r blynyddoedd academaidd gofynnol a'r canlyniadau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â dyheadau'r person ifanc yn y dyfodol. Yn dilyn ei phenderfyniad i gymeradwyo cais, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y sefydliad addysg bellach arbenigol. Bydd hyn yn nodi'r rhaglen astudio benodol a'i dadansoddiad perthnasol yn ôl blwyddyn academaidd y mae Llywodraeth Cymru yn barod i'w hariannu. Mae hyn yn sicrhau tryloywder i bob parti dan sylw ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ariannu'n benodol.

[14] Mae Cytundeb Cyllido Llywodraeth Cymru yn sefydlu fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a'r sefydliad addysg bellach arbengiol mewn perthynas â'r bobl ifanc hynny y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'w hariannu ac amodau'r cyllid hwnnw.

55. Mae sefydliadau addysg bellach arbenigol yn gyfrifol am asesu cynnydd person ifanc yn erbyn y rhaglen astudio a gytunwyd ar eu cyfer. Er mwyn i Lywodraeth Cymru fonitro cynnydd pobl ifanc yn erbyn y rhaglenni astudio a gytunwyd ar eu cyfer, mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach arbenigol ddarparu adroddiad(au) cynnydd ar ddiwedd y tymor academaidd cyntaf ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd (gweler yr adran ar Amserlenni ar dudalen 23) i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei adolygu'n systematig yn rheolaidd er mwyn asesu a yw'r person ifanc yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, a bydd yn llywio penderfyniadau'n ymwneud â chyllid ar gyfer blynyddoedd dilynol.

56. Pan fo person ifanc yn cwblhau ei raglen astudio ac mae'r person ifanc yn cymryd y cam nesaf yn ei fywyd tuag at gyflogaeth neu fyw'n rhannol-annibynnol/annibynnol, dylai sefydliadau addysg bellach arbenigol gofnodi'r wybodaeth hon am 'gyrchfan dysgwyr' a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru (gweler yr adran ar Amserlenni ar dudalen 23). Mae'r wybodaeth hon yn galluogi Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru i asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth arbenigol a ddarparwyd a'r cyfraniad a wnaeth tuag at ddyfodol y person ifanc.

## Cydsynio i leoliadau

57. Fel rhan o'r broses ymgeisio am gyllid, mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall a oes gan y person ifanc dan sylw y gallu meddyliol i gydsynio i'r lleoliad, ac os felly, a yw wedi gwneud hynny. Mewn achosion lle nad oes gan y person ifanc y gallu i gydsynio, mae angen i Lywodraeth Cymru wybod a oes cydsyniad dilys yn ei le a'r manylion cysylltiedig.

58. Mae hyn er mwyn sicrhau bod buddiannau gorau a hawliau dynol y person ifanc yn cael eu diogelu'n briodol, ac er mwyn penderfynu a ddylid cytuno i ariannu lleoliadau mewn sefydliadau arbenigol ac ar be delerau, neu sut i ymdrin â'r cais am gyllid. Mewn rhai achosion er enghraifft, efallai bydd angen gwneud cais i'r llys er mwyn awdurdodi'r lleoliad. Nes bod cydsyniad wedi'u gytuno, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cais am leoliad arbenigol.

59. Mae achosion lle gallai lleoliad arwain at golli rhyddid yn gymhleth iawn. Mae'r mecanweithiau sydd ar gael i awdurdodi lleoliadau yn yr achosion hyn yn amrywio, gan ddibynnu ar natur y sefydliad addysg bellach arbenigol y bwriedir darparu'r ddarpariaeth ynddo. Am y rheswm hwn, gall gymryd mwy o amser i ddod i benderfyniad am leoliad mewn achosion lle nad yw'r materion hyn wedi'u datrys cyn cyflwyno'r cais am gyllid.

# Cyllid

## Cyllid ar y cyd

60. Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar ei phen ei hun i gynorthwyo pobl ifanc ag anawsterau dysgu. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried rôl a chyfrifoldebau sefydliadau eraill tuag at bobl ifanc. Gallai'r sefydliadau hyn gynnwys Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol, byrddau iechyd a sefydliadau gwirfoddol; a gallai'r rhain i gyd gyfrannu at ddarparu cyngor a/neu gymorth ar gyfer unigolion. Nod Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo cydweithio rhwng asiantaethau yw sicrhau'r ymateb gorau posibl i anghenion pobl ifanc.

61. Mewn amgylchiadau lle mae rhesymau meddygol, domestig neu ofal cymdeithasol dros argymell darpariaeth addysg bellach arbenigol, yn ogystal ag anghenion addysgol, bydd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r asiantaeth briodol ddod i drefniant ar gyfer cyllid ar y cyd.

62. Yn ôl Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, 'dylai pob asiantaeth gydnabod ei chyfrifoldeb ariannol cyn gynted ag y bo modd yn y cyfnod o gynllunio'r trawsnewid. Dylai trefniadau cynllunio ar y cyd nodi'r gwahanol elfennau yn y ddarpariaeth a gynllunnir a'r asiantaethau sy'n gyfrifol am ariannu pob un o'r elfennau hynny, yn enwedig os argymhellir y dylid cyflwyno'r ddarpariaeth ôl-16 mewn sefydliad preswyl.' Mae cynnwys asiantaethau ariannu yn gynnar yn y broses bontio AAA a chydnabod unrhyw gyfrifoldebau ariannu'n gynnar gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn hwyluso ymateb deallus ac amserol i geisiadau am gyllid mewn sefydliad addysg bellach arbenigol. Mae'r dull cydweithredol hwn yr un mor berthnasol mewn achosion pan fo cyswllt cyntaf person ifanc ag asiantaethau yn digwydd ar ôl gadael addysg orfodol.

63. Dylai sefydliadau addysg bellach arbenigol sicrhau eu bod wedi nodi'r costau sy'n gysylltiedig â'r lleoliad arfaethedig yn glir yn ystod proses asesu adran 140; mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r costau penodol sy'n ymwneud ag addysg, iechyd a/neu ofal cymdeithasol. Mae'n rhaid i'r asiantaethau cyllid perthnasol ymgysylltu ymwneud â'r broses asesu a'r sefydliad addysg bellach arbenigol yn gynnar er mwyn trafod a chytuno ar y costau a ddosrannwyd iddynt. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cael proses mwy effeithiol ar gyfer pennu trefniadau cyllido ar y cyd ar gyfer y person ifanc.

## Ôl-ddyddio cyllid

64. Mae'r Cytundeb Cyllid rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg bellach arbenigol yn nodi'n glir na ddylai sefydliadau gofrestru person ifanc a gwneud cais am gyllid ôl-weithredol gan Lywodraeth Cymru wedi hynny. Ni fydd cyllid yn cael ei ôl-ddyddio heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, e.e. pan fo person ifanc neu blentyn sy'n derbyn gofal wedi'i roi mewn sefydliad addysg bellach arbenigol gan wasanaethau cymdeithasol neu fwrdd iechyd lleol.

## Cyllid fesul blwyddyn academaidd

65. Cymeradwyir cyllid gan Lywodraeth Cymru ar sail blwyddyn academaidd (uchafswm 38 wythnos/blwyddyn).

66. Mae'r cyllid ar gyfer pob blwyddyn o raglen astudio y cytunir arni yn dibynnu ar gynnydd ac yn destun adolygiad. Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau ar waith er mwyn monitro lleoliad person ifanc sydd wedi'i gyllido a fydd yn llywio penderfyniadau yn ymwneud â chyllid ar gyfer blynyddoedd dilynol. Petai person ifanc yn gwneud cynnydd eithriadol yn erbyn y rhaglen astudio a gytunwyd, rhoddir ystyriaeth i addasu/gostwng cyfnod y cyllid er mwyn adlewyrchu realiti'r cyflymder y mae'r person ifanc yn cyflawni ei raglen astudio.

67. Pan nad yw person ifanc yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, ystyrir ceisiadau am gyllid i ymestyn y lleoliad er mwyn galluogi'r person ifanc i gwblhau'r rhaglen a gytunwyd yn wreiddiol yn unol â'r weithdrefn yn yr adran ar 'Cais am gyllid i ymestyn rhaglen astudio a gytunwyd' ar dudalen 19.

## Ffioedd

68. Mae sefydliadau addysg bellach arbenigol yn gosod eu ffioedd ar sail anghenion asesedig y bobl ifanc. Bydd y sefydliad yn cynnal asesiad o'r person ifanc cyn mynediad, fel rhan o'r asesiad adran 140, er mwyn penderfynu ar y ddarpariaeth y gallant ei chynnig er mwyn diwallu anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant. Ni ddylai'r asesiad hwn ddigwydd wrth ei hun, dylid ei ystyried gyda thystiolaeth berthnasol arall, er enghraifft cynllun gofal a chymorth; ac unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd lleol. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd unrhyw ffioedd dynodedig nodir ar gyfer rhaglen astudio a gynigir yn cynnwys unrhyw gostau asesu cyn mynediad a nodir gan y sefydliad addysg bellach arbenigol.

## Cludiant o'r cartref i'r coleg

69. Mae'n bwysig bod y person ifanc a'i rieni/gofalwyr yn deall y trefniadau tebygol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r coleg yn enwedig lle gallai gael mynediad at ddarpariaeth mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol. Felly, cyn cyflwyno cais am gyllid, disgwylir i unrhyw drefniadau posibl ar gyfer cludiant angenrheidiol gael eu hystyried a'u crybwyll mewn trafodaethau gyda'r awdurdod lleol fel rhan o'r asesiad adran 140. Dylid nodi'r trefniadau hyn yn y cais am gyllid.

70. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ariannu cludiant o'r cartref i'r coleg fe arfer. Yn gyffredinol, mae hyn yn rhan o gylch gwaith awdurdodau lleol sy'n ystyried gofynion cludiant fesul achos, gan ystyried eu dyletswyddau statudol.

## Absenoldeb a thynnu'n ôl

71. Unwaith mae person ifanc wedi cychwyn rhaglen astudio, mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach arbenigol roi gwybod i Lywodraeth Cymru ar unwaith os yw'r unigolyn yn absennol (yn y tymor byr neu'r tymor hir) neu wedi tynnu'n ôl yn gyfan gwbl o'i raglen astudio. Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau ariannol ar waith y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw petai sefyllfa o'r fath yn codi.

# Gweithdrefnau ac ystyriaethau sy'n berthnasol i benderfyniadau cyllid

## Ceisiadau cychwynnol am gyllid

72. Mae'r ddarpariaeth mewn sefydliadau addysg bellach prif ffrwd yn para dwy flynedd academaidd fel arfer. Felly, gan amlaf bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu lleoliadau mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol sy'n para hyd at ddwy flynedd academaidd, yn seiliedig ar raglen astudio realistig a gytunir ymlaen llaw.

73. Ni ddylai Llywodraeth Cymru gael cais am raglen astudio sy'n para mwy na dwy flynedd academaidd oni bai bod rhesymau eithriadol yn cael eu rhoi'n ymwneud â gallu'r person ifanc i ddysgu. Hyd yn oed yr achosion hyn, mae'n annhebygol y cynigir cyllid am fwy na dwy flynedd heb dystiolaeth wrthrychol yn dangos na ellir, mewn gwirionedd, darparu'r ddarpariaeth a nodwyd yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion y person ifanc gan raglen astudio dwy flynedd[15]. Mae'n rhaid i Gyrfa Cymru nodi hyd y rhaglen astudio cyn cyflwyno cais.

74. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd trefniadau pontio effeithiol yn rhan ganolog o raglen astudio'r person ifanc. Yn aml mae pobl ifanc ag anawsterau dysgu yn ei chael yn anodd addasu i leoliad neu amgylchedd newydd a fydd yn cynnig y ddarpariaeth iddynt. Mae'n bwysig bod trefniadau pontio ar waith er mwyn i'r broses o gychwyn y ddarpariaeth newydd fod yn un esmwyth i'r person ifanc er mwyn  lleihau'r risg o straen a/neu bryder i'r unigolyn. Mae'r un mor bwysig bod y trefniadau ar gyfer pontio o sefydliad addysg bellach arbenigol wedi'u cynllunio a'u rhoi ar waith yn effeithiol hefyd, mewn cydweithrediad ag asiantaethau cymorth perthnasol, fel gwasanaethau cymdeithasol neu fyrddau iechyd lleol, ac y gwneir hynny'n brydlon a chyn i'r person ifanc gwblhau ei raglen. Fe'i hystyrir yn arfer da i asiantaethau cymorth perthnasol ymgysylltu â'r sefydliad addysg bellach arbenigol gydol darpariaeth y person ifanc, a deall eu dyheadau/canlyniadau a ddymunir. Mae hyn yn sicrhau bod y person ifanc yn cael cymorth priodol wrth adael.

75. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw geisiadau i ariannu amser ychwanegol i gynorthwyo gyda'r trefniadau pontio hynny y gwnaeth y sefydliad addysg bellach arbenigol fethu â'u rhoi ar waith ar gyfer y person ifanc. Mae hyn yn cynnwys methu â gwneud addasiadau i ddarpariaeth pan ystyrir mai cyfnod byr iawn y cafodd y person ifanc ar gyfer y broses bontio ar ôl cael mynediad at sefydliad addysg bellach arbenigol.

---

[15] Mae sefydliadau addysg bellach arbenigol wedi'u sefydlu'n benodol i gynnig darpariaeth ar gyfer anghenion cymhleth y bobl ifanc hynny y mae eu darpariaeth wedi'i bwriadu'n benodol ar eu cyfer, h.y. pobl ifanc ag awtistiaeth difrifol neu bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, ac ati. Felly, yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i sefydliadau addysg bellach arbenigol gynllunio rhaglenni astudio pwrpasol sy'n gymharol mewn hyd i'r rhai a ddarperir gan sefydliad addysg bellach prif ffrwd. Dylai'r rhaglenni hyn gael eu targedu'n benodol at y lefel o addysg y gellir ei gyflawni'n realistig yn y cyfnod hwnnw, ar gyfer y cohort cyffredinol o bobl ifanc sy'n mynychu'r sefydliadau hyn.

## Ceisiadau am gyllid ar gyfer newidiadau i raglen astudio a gytunwyd

76. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod angen addasu rhaglen astudio unwaith y mae person ifanc wedi cychwyn ar y ddarpariaeth oherwydd cymhlethdod anghenion rhai pobl ifanc. Cyfrifoldeb y sefydliad addysg bellach arbenigol yw nodi unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol i ddarpariaeth yr unigolyn, gan gynnwys y person ifanc a'r rhieni/gofalwyr (os yw'n briodol[16]) a'u hysbysu am y newidiadau a chyflwyno cais i Lywodraeth Cymru.

77. Pan fo pryderon neu broblemau'n ymwneud a rhaglen astudio'r person ifanc a allai effeithio ar gost y lleoliad neu'r ddarpariaeth a gytunwyd, mae'n rhaid i'r sefydliad addysg bellach arbenigol dynnu sylw Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyllid eraill at y mater cyn gynted ag y byddant yn codi. Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gytuno ymlaen llaw i unrhyw newidiadau a gynigir i'r ddarpariaeth o fewn y rhaglen astudio a gytunwyd, gan gynnwys materion achredu.

78. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n ystyried newidiadau rhaglen 'gyfan' pan dderbynnir y cais ar ôl tymor academaidd cyntaf y person ifanc. Disgwylir y bydd y tymor academaidd cyntaf yn rhoi digon o amser i'r sefydliad addysg bellach arbenigol asesu a yw'r person ifanc ar raglen briodol. Yn ogystal, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw newidiadau i ddarpariaeth fel arfer os yw'n effeithio ar yr hyd a gytunwyd ar gyfer y rhaglen.

79. Fel arfer, bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno i newidiadau sy'n golygu cynnydd neu ostyngiad bach mewn costau, os ydynt yn fodlon bod y newidiadau'n ddymunol er mwyn diwallu anghenion dynodedig y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant. Pan fo'r newidiadau'n golygu newid sylweddol mewn costau, bydd Lywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau am gyllid os ydynt yn ystyried bod y newidiadau yn gwbl angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant fel y nodir yn ei Gynllun Dysgu a Sgiliau.

80. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n ariannu newidiadau i raglenni astudio na chytunwyd yn benodol iddynt. Gall unrhyw newidiadau i raglenni astudio neu ofynion o ran cymorth a gytunwyd ac a gychwynnwyd gan sefydliadau addysg bellach arbenigol nad yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno iddynt cyn eu darparu arwain at dynnu'r cyllid yn ôl ar gyfer lleoliad a gytunwyd.

81. Er budd pennaf y person ifanc, dylid cyflwyno newidiadau i'r ddarpariaeth a gytunwyd i Lywodraeth Cymru eu hystyried cyn gynted ag y nodir yr angen (boed yr angen yn golygu costau ychwanegol ai peidio). Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio gwneud penderfyniad o fewn pedair wythnos i dderbyn cais. Fodd bynnag, pan fo lleoliad person ifanc yn cael ei ariannu ar y cyd ag asiantaethau eraill, gall gymryd amser i sicrhau cyllid gan yr asiantaethau hynny, os mai dyna sy'n angenrheidiol. Dylid cynnwys yr holl asiantaethau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod yna ddigon o amser i wneud penderfyniadau am unrhyw newidiadau gofynnol i'r ddarpariaeth.

---

[16] Bydd angen i'r sefydliad addysg bellach arbenigol ystyried a oes angen cydsyniad y person ifanc er mwyn rhannu gwybodaeth â'r rhieni/gofalwyr.

## Ceisiadau i ariannu estyniad i raglen astudio a gytunwyd

82. Mae sefydliadau addysg bellach arbenigol yn gyfrifol am asesu cynnydd y person ifanc yn erbyn ei raglen astudio, ac ystyried, mewn cydweithrediad â'r person ifanc, eu rhieni/gofalwyr a Gyrfa Cymru, a yw cais am estyniad i'r rhaglen a gytunwyd yn angenrheidiol. Y sefydliad addysg bellach arbenigol sy'n gyfrifol am gyflwyno cais am estyniad i Lywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwn, golyga 'estyniad' estyniad o amser i gwblhau'r rhaglen astudio wreiddiol y cytunodd Llywodraeth Cymru i'w hariannu (y cyfeirir ati fel "rhaglen a gytunwyd").

83. Dylai'r cais am estyniad ymwneud yn unig ag ymestyn yr amser sy'n ofynnol i'r person ifanc gwblhau ei raglen astudio wreiddiol. Nid yw cais i ymestyn lleoliad person ifanc er mwyn i'r unigolyn wneud darpariaeth neu raglenni achrededig ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn wreiddiol yn gais am estyniad, a defnyddir ystyriaethau gwahanol gyda phenderfyniadau am gyllid yn yr achosion hynny (gweler yr adran ar 'Ceisiadau i ariannu rhaglenni astudio ychwanegol' ar dudalen 20).

84. Ni chaiff ceisiadau i ymestyn lleoliad person ifanc y tu hwnt i ddyddiad gorffen gwreiddiol a gytunwyd ar gyfer y rhaglen ddysgu eu caniatáu ac eithrio mewn amgylchiadau **eithriadol**. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gael ei hargyhoeddi nad oedd modd osgoi'r amgylchiadau a arweiniodd at yr angen am estyniad a bod yr estyniad yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau bod anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant, fel nodir yng Nghynllun Dysgu a Sgiliau y person ifanc, yn cael eu diwallu.

85. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw geisiadau am estyniad sy'n ceisio cynnig amser ychwanegol mewn sefydliad addysg bellach arbenigol oherwydd rhesymau'n ymwneud â'r broses gynllunio ar gyfer pontio, e.e. lle ni chafwyd trefniadau pontio effeithiol. Un enghraifft lle gellid ystyried bod cais am estyniad yn angenrheidiol yw pan fo person ifanc wedi methu â chwblhau rhaglen a gytunwyd oherwydd absenoldeb o ganlyniad i salwch annisgwyl, sydd yn y pen draw, wedi effeithio ar ei allu i ddysgu.

86. Fel arfer, ni ddarperir cyllid ar gyfer mwy nag un estyniad i'r un rhaglen astudio a gytunwyd. Mewn achosion eithriadol iawn pan fo cais am ail estyniad yn cael ei ystyried o gwbl, mae'n annhebygol y darperir cyllid os yw'r ail gais yn deillio o'r un amgylchiadau eithriadol â'r cyntaf.

87. Ystyrir pob cais am estyniad fesul achos. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hyd gofynnol y rhaglen fod yn gymesur â'r hyn sydd ar ôl i'w gwblhau o'r rhaglen astudio a gytunwyd ar gyfer y person ifanc.

88. Dylid lleisio unrhyw bryderon neu broblemau'n ymwneud â gallu'r person ifanc i gwblhau'r rhaglen astudio a gytunwyd gan y sefydliad addysg bellach arbenigol yn yr adolygiadau tymhorol a'u cofnodi yn adroddiadau cynnydd y person ifanc. Rhaid hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw bryderon neu broblemau'n ymwneud â pherson ifanc penodol, drwy gyflwyno adroddiadau cynnydd yn gynnar gan ddefnyddio ffurflen briodol Llywodraeth Cymru, a chyn cyflwyno cais ysgrifenedig am estyniad. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol, mae Llywodraeth Cymru'n annhebygol o gytuno i gais am estyniad os mai wrth dderbyn cais am estyniad y mae'n cael ei hysbysu am y

tro cyntaf am unrhyw bryderon neu broblemau'n ymwneud â gallu'r person ifanc i gwblhau'r rhaglen astudio a gytunwyd.

89. Dylai ceisiadau i ariannu estyniadau, gyda rhesymau cynhwysfawr, gael eu gwneud yn ysgrifenedig gan y sefydliad addysg bellach arbenigol, gan nodi'n glir pa agweddau ar y rhaglen astudio a gytunwyd sydd wedi'u cyflawni hyd yma a'r hyn sydd heb ei gwblhau. Mae'n rhaid i'r cais:

- egluro'r angen am estyniad
- nodi, gan roi rhesymau dros hynny, y cyfnod ychwanegol priodol sydd ei angen ar y person ifanc i gwblhau'r rhaglen astudio wreiddiol a gytunwyd
- dangos bod yr holl opsiynau eraill wedi'u hystyried, a'u trafod gyda Gyrfa Cymru a phartïon eraill â buddiant, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol/byrddau iechyd lle bo ganddynt fuddiant uniongyrchol.

90. Er budd pennaf y person ifanc, dylid cyflwyno ceisiadau am estyniad yn ystod blwyddyn academaidd olaf yr unigolyn cyn gynted ag y mae'r angen am estyniad yn hysbys, ac erbyn 30 Ebrill fan bellaf. Os cyflwynir y cais ar ôl y dyddiad hwn, ni all Llywodraeth Cymru warantu y bydd yn gwneud penderfyniad cyn diwedd y flwyddyn academaidd honno. Os gwnaeth y person ifanc ddechrau ei leoliad yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd, dylai'r cais am estyniad gael ei dderbyn fan bellaf erbyn diwedd tymor olaf ond un y flwyddyn academaidd y mae lleoliad presennol y person ifanc yn dod i ben ynddi.

91. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn pedair wythnos i dderbyn cais am estyniad. Fodd bynnag os yw lleoliad person ifanc yn cael ei ariannu ar y cyd ag asiantaethau eraill, gall gymryd amser i drefnu bod y cyllid gan yr asiantaethau hynny'n parhau. Os bydd angen estyniad, dylai'r sefydliad addysg bellach arbenigol sicrhau bod asiantaethau cyllid eraill yn cael eu cynnwys cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu digon o amser i wneud penderfyniadau.

## Ceisiadau i ariannu rhaglenni astudio ychwanegol

92. Mewn rhai amgylchiadau, gall fod angen i berson ifanc gyflawni darpariaeth arbenigol ychwanegol ar ôl cwblhau ei raglen astudio wreiddiol, y tu hwnt i'r rhaglen honno. Fodd bynnag, nid yw'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i ariannu addysg a hyfforddiant yn barhaus fel mater o drefn hyd nes bod y dysgwr yn 25 oed. Nid yw chwaith yn bolisi gan Lywodraeth Cymru i ariannu rhaglen astudio ychwanegol ddim ond am ei fod yn cael ei ystyried yn ddymunol i'r person ifanc, er enghraifft, gan fod y person ifanc wedi gwneud yn dda mewn sefydliad addysg bellach arbenigol penodol, ac y byddai'n parhau i wneud cynnydd da, neu oherwydd nad oes trefniadau pontio priodol wedi'u rhoi yn eu lle ar ôl cwblhau rhaglen astudio flaenorol/bresennol (gweler paragraffau 74/75 am ragor o wybodaeth am gynlluniau pontio).

93. Bydd Llywodraeth Cymru ond yn ariannu rhaglen astudio ychwanegol mewn unrhyw sefydliad addysg bellach arbenigol dan amgylchiadau eithriadol. Dyma enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol:

- pan fo safon yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer y sefydliad addysg bellach arbenigol wedi gostwng cymaint islaw'r safon sy'n ddisgwyliedig fel ei bod yn amlwg bod y sefydliad wedi methu darparu'r ddarpariaeth y

sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol er mwyn diwallu Cynllun Dysgu a Sgiliau y person ifanc.

- pan fo amgylchiadau neu anghenion personol y person ifanc wedi newid i'r fath raddau nes iddynt fethu cael, neu golli manteision y Cynllun Dysgu a Sgiliau, gan effeithio'n andwyol ar eu gallu i ymwneud yn ystyrlon â'r rhaglen astudio a gytunwyd, ee oherwydd newid yn natur yr anabledd (dirywiad neu welliant sylweddol yn yr anabledd) neu o ganlyniad i brofiad trawmatig.

94. Cyn bod modd gwneud cais ar gyfer rhaglen astudio ychwanegol, rhaid i Lywodraeth Cymru roi cydsyniad i gais i ddiweddaru asesiad adran 140. Rhaid i'r cais hwn ddangos beth sydd wedi newid yn amgylchiadau'r person ifanc i'r fath raddau bod angen diweddaru'r asesiad adran 140. Yn ddarostyngedig i'r cydsyniad hwn, nid oes gwarant o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen astudio ychwanegol (gweler ‘Asesiad Adran 140 (Cynllun Dysgu a Sgiliau)’ ar dudalen 7; paragraff 43(b) a pharagraff 81 o'r Canllawiau Technegol ar gyfer Gyrfa Cymru).

95. Cyfrifoldeb Gyrfa Cymru yw gwneud ceisiadau ar gyfer rhaglenni astudio ychwanegol. Pan fo Llywodraeth Cymru wedi rhoi cydsyniad i Gyrfa Cymru gynnal asesiad adran 140 wedi'i ddiweddaru, ac nad yw'r canlyniad yn nodi darpariaeth mewn sefydliad addysg bellach arbenigol, nid oes modd i Gyrfa Cymru wrthod cyflwyno cais, ond dylai dynnu sylw'r person ifanc a'i riant/gofalwr at gynnwys y ddogfen. Dylai’r cais ddangos bod yr holl opsiynau eraill wedi’u hystyried gyda chymorth cyfraniad gan bartïon â buddiant, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol a/neu fyrddau iechyd lleol lle bo ganddynt fuddiant uniongyrchol.

96. Pan fo’n ofynnol cael cyllid ar y cyd ag asiantaethau cyllido eraill ar gyfer lleoliad, bydd angen ystyried yr un ystyriaethau a nodir yn yr adran ar Gyllid ar dudalen 15.

97. Nes bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ynghylch rhaglen astudio ychwanegol, dylai trefniadau pontio o fewn coleg a gydag asiantaethau allanol perthnasol barhau.

## Apelio / cwyno

98. Bydd Llywodraeth Cymru’n ymdrechu i weithredu yn unol â’r polisi a nodwyd yn y ddogfen hon, ac yn unol â Deddf 2000. Fodd bynnag, pan fo person ifanc a/neu ei riant/gofalwr o'r farn nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad rhesymol yn unol â’r polisi hwn a/neu’r gyfraith, gallant apelio ar i Lywodraeth Cymru adolygu'r penderfyniad a wnaed.

99. Gellir cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â:

- chais am gyllid
- cais am newid(iadau) mewn rhaglen astudio a gytunwyd
- cais i ariannu estyniad i raglen astudio a gytunwyd
- cais i gynnal neu ddiweddaru asesiad adran 140

100. Wrth gyflwyno apêl, mae’n rhaid i’r person ifanc a/neu’r rhiant/gofalwr nodi’r penderfyniad sy’n destun apêl a’r rhesymau dros yr apêl, h.y. pam mae’r penderfyniad yn anghywir. Dylid cyflwyno’r apêl yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad gwreiddiol, gydag unrhyw dystiolaeth sy’n cefnogi’r apêl. Mae derbyn

apêl yn ysgrifenedig yn bwysig iawn gan fod rhesymau a thystiolaeth ategol yn gallu bod yn gymhleth a manwl. Mae cyngor a chymorth ar gael gan Gyrfa Cymru os yw'r person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr yn dymuno ystyried apelio.

101. Gall person ifanc a/neu riant sydd am apelio gael ffurflen i wneud hynny ar wefan Llywodraeth Cymru. Gellir ei gweld yma https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ifanc-ag-anawsterau-dysgu-mewn-sefydliadau-addysg-bellach-arbenigol-ffurflen-gais

102. Gellir cyflwyno apêl drwy'r dulliau canlynol:

- drwy e-bost at flwch post Llywodraeth Cymru Post16ALN@gov.wales
- drwy'r post i:

  Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol Ôl-16
  Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
  Y Gyfarwyddiaeth Addysg
  Llywodraeth Cymru
  Llys-y-ddraig
  Parc Busnes Penlle'r-gaer
  Abertawe
  SA4 9NX

103. Ar ôl derbyn yr holl wybodaeth berthnasol am yr apêl bydd Llywodraeth Cymru'n galw panel ynghyd i'w hystyried. Darperir ymateb a fydd yn nodi canlyniad yr apêl a'r rhesymau am y canlyniad.

104. Pan fo person ifanc a/neu riant/gofalwr yn parhau i fod yn anfodlon gyda chanlyniad y panel gallant ofyn am drosglwyddo'r apêl i asesydd annibynnol. Dylid cyflwyno cais ysgrifenedig o'r fath o fewn 28 diwrnod gwaith i'r hysbysiad am ganlyniad yr apêl. Bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu person annibynnol a diduedd i weithredu fel asesydd annibynnol, i adolygu'r apêl a gwneud argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried canlyniad yr adolygiad hwnnw ac yn hysbysu'r person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr.

105. Mae amserlenni'r broses apelio wedi'u nodi yn yr adran 'Amserlenni' ar dudalen 23.

106. Os bydd person ifanc a/neu ei rieni/gofalwyr eisiau cwyno am y broses sy'n arwain at benderfyniad, gellir gwneud cwyn gan ddefnyddio polisi cwynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cwsmeriaid. Mae'r polisi cwynion ar gyfer cwsmeriaid yn egluro beth i'w wneud os ydych yn anfodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'ch bod eisiau cwyno. Gellir gweld y polisi cwynion yn: https://llyw.cymru/cwyn-am-lywodraeth-cymru

## Amserlenni

107. Dylai'r broses gynllunio ar gyfer pontio gychwyn ym Mlwyddyn 9 a dod i ben, lle bo angen, drwy gyflwyno'r cais am gyllid i Lywodraeth Cymru ym mlwyddyn olaf y person ifanc mewn addysg orfodol. Mae hyn yn sicrhau bod digon o amser i ystyried yr holl opsiynau'n ymwneud â dyheadau'r person ifanc yn y dyfodol ac i gynllunio sut i'w gwireddu'n unol â hynny. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r bobl ifanc hynny sydd ag anghenion cymhleth a fydd angen mewnbwn amlasiantaethol i'w cynorthwyo yng ngham nesaf eu bywyd. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i asesiadau 140 gael eu cwblhau gan Gyrfa Cymru erbyn diwedd tymor academaidd y gwanwyn ar gyfer y bobl ifanc hynny yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol, neu cyn gynted â'i bod yn ymarferol bosibl i bobl ifanc sy'n hŷn nag oedran addysg orfodol ond dan 25 oed.

108. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall sefydliadau addysg bellach arbenigol dderbyn person ifanc ar adegau amrywiol o'r flwyddyn academaidd ac felly gellir cyflwyno ceisiadau am gyllid ar unrhyw adeg yn y flwyddyn galendr. Fodd bynnag, dylid cyflwyno ceisiadau am gyllid (ar gyfer rhaglenni astudio cychwynnol/ychwanegol) gan Gyrfa Cymru rhwng 1 Hydref a 30 Ebrill ar gyfer darpariaeth sy'n dechrau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol. Bydd hyn yn sicrhau y gwneir penderfyniad cyn i'r flwyddyn academaidd gychwyn. Rhoddir blaenoriaeth i'r ceisiadau hynny a dderbynnir yn unol â'r amserlen.

109. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud penderfyniad ar geisiadau sy'n dod i law erbyn 30 Ebrill o fewn chwe wythnos o'u derbyn, a bydd yn cadarnhau ei phenderfyniad yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, gall gymryd mwy o amser i benderfynu ynghylch ceisiadau lle mae angen rhagor o wybodaeth neu lle mae angen cyllid ar y cyd. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru'n cysylltu â Gyrfa Cymru a fydd yn rhoi gwybod i'r person ifanc a'r rhieni/gofalwyr am hynt y broses benderfynu.

110. Pan gaiff cais am gyllid ei gymeradwyo, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y person ifanc, ei rieni/gofalwyr (lle y bo'n berthnasol), Gyrfa Cymru, y sefydliad addysg bellach arbenigol ac asiantaethau perthnasol eraill er mwyn cadarnhau'r penderfyniad. Yn dilyn y cadarnhad hwn, **rhaid** i Gyrfa Cymru roi copi o Gynllun Dysgu a Sgiliau terfynol y person ifanc i'r sefydliad addysg bellach arbenigol perthnasol er mwyn sicrhau bod modd rhoi'r trefniadau cymorth angenrheidiol yn eu lle.

111. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau a dderbynnir ar 1 Mai neu ar ôl hynny ar gyfer rhaglenni astudio y disgwylir iddynt gychwyn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf h.y. mis Medi. Mae derbyn ceisiadau ar ôl y diwrnod hwn yn ei gwneud yn anodd ymgysylltu'n ystyrlon â rhanddeiliaid perthnasol, yn enwedig y rhai yn y sector addysg, er mwyn nodi unrhyw wybodaeth bellach a allai fod yn ofynnol er mwyn cefnogi'r cais. At hynny, nid yw penderfyniadau a wneir ar ôl y cyfnod hwn yn helpu'r person ifanc, ei deulu a darparwyr addysg bellach arbenigol gyda'r broses o gynllunio ar gyfer pontio yn effeithiol cyn i'r lleoliad a gytunwyd gychwyn.

112. Gall Gyrfa Cymru barhau i gyflwyno ceisiadau ar 1 Mai neu wedi hynny. Fodd bynnag yn yr amgylchiadau hyn byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cynghorydd gyrfaoedd gysylltu â'r sefydliad addysg bellach arbenigol a'r teuluoedd fel arfer i geisio trefnu dyddiad cychwyn ar ddechrau'r tymor academaidd nesaf (gweler y tabl ar dudalen 24). Mae'n rhaid i hyn gael ei adlewyrchu yn y cais am gyllid. Mae'n rhaid i'r dyddiad cychwyn amgen ganiatáu digon o amser ar gyfer gwneud penderfyniad ac ar

gyfer rhoi trefniadau pontio priodol ar waith ar gyfer y person ifanc. Nid yw’n cael ei ystyried yn arfer da i gychwyn darpariaeth arbenigol yn gynnar fel y gall y person ifanc gael mynediad at ddarpariaeth yn gyflym; mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar y person ifanc a'i allu i ddysgu.

113. Mae’r canlynol yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran safonau ar gyfer y rhai sy’n rhan o’r broses o sicrhau lleoliad person ifanc a’i ariannu:

| **Proses** | **Yn arwain** | **Yr Amserlen** |
|---|---|---|
| Cwblhau asesiadau adran 140. Mae’n rhaid i hyn gynnwys cyfraniad priodol gan yr holl asiantaethau angenrheidiol | Gyrfa Cymru | Diwedd tymor academaidd y gwanwyn ym mlwyddyn academaidd olaf y person ifanc yn yr ysgol<br><br>Diwedd tymor academaidd y gwanwyn, neu cyn gynted ag y mae’n ymarferol bosibl ar gyfer y bobl ifanc hynny nad ydynt yn yr ysgol, ac sy’n hŷn nag oedran addysg orfodol ond o dan 25 oed |
| Cyflwyno cais ar gyfer rhaglen astudio newydd/ychwanegol i Lywodraeth Cymru | Gyrfa Cymru | Rhoddir blaenoriaeth i’r rhai y daw eu ceisiadau i law rhwng 1 Hydref a 30 Ebrill, ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Medi<br><br>Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 30 Medi ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Ionawr; neu erbyn 31 Ionawr ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Ebrill |
| Llywodraeth Cymru yn ystyried cais ar gyfer rhaglen astudio newydd/ychwanegol | Llywodraeth Cymru | Penderfyniad o fewn chwe wythnos i dderbyn cais |

114. Mae'r canlynol yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran safonau pan fo person ifanc yn dilyn rhaglen astudio mewn sefydliad addysg bellach arbenigol:

| Proses | Yn arwain | Yr Amserlen |
|---|---|---|
| Nodi unrhyw newidiadau gofynnol o fewn rhaglen astudio a gytunwyd a chyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i ystyried y newidiadau gofynnol | Sefydliad Addysg Bellach Arbenigol | O fewn tymor astudio cyntaf y person ifanc mewn unrhyw flwyddyn academaidd |
| Llywodraeth Cymru yn ystyried cais i newid darpariaeth o fewn rhaglen astudio a gytunwyd | Llywodraeth Cymru | O fewn pedair wythnos o dderbyn cais, fodd bynnag gall fod yn hirach os oes angen i asiantaethau cyllid eraill roi ystyriaeth iddo |
| Cyflwyno cais am estyniad i raglen astudio a gytunwyd | Sefydliad Addysg Bellach Arbenigol | Erbyn 30 Ebrill ym mlwyddyn astudio olaf y person ifanc, neu ddiwedd y tymor academaidd diwethaf ond un, os yw'r person ifanc wedi dechrau ei ddarpariaeth y tu allan i'r flwyddyn academaidd safonol |
| Llywodraeth Cymru yn ystyried cais am estyniad i raglen astudio a gytunwyd, a gyflwynwyd erbyn 30 Ebrill | Llywodraeth Cymru | Penderfyniad o fewn pedair wythnos i dderbyn cais |
| Cyflwyno adroddiadau cynnydd i Lywodraeth Cymru | Sefydliad Addysg Bellach Arbenigol | O fewn mis i ddiwedd y tymor academaidd cyntaf; ac o fewn mis cyn cwblhau'r flwyddyn academaidd |
| Hysbysu bod y person ifanc yn absennol neu wedi tynnu'n ôl | Sefydliad Addysg Bellach Arbenigol | Ar unwaith |
| Cyflwyno gwybodaeth am gyrchfan y person ifanc | Sefydliad Addysg Bellach Arbenigol | Erbyn hanner tymor, ar ôl cwblhau rhaglen astudio'r person ifanc |

115. Mae'r canlynol yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o safonau ar gyfer y rhai sy'n rhan o'r broses apêl.

| **Proses** | **Yn arwain** | **Yr Amserlen** |
|---|---|---|
| Cadarnhau derbyn cais apêl | Llywodraeth Cymru | O fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn cais apêl |
| Darparu ymateb i'r person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr yn cadarnhau canlyniad yr apêl | Llywodraeth Cymru | O fewn 15 diwrnod i dderbyn cais apêl; cyn belled bod yr holl dystiolaeth ategol berthnasol wedi'i chyflwyno |
| Comisiynu asesydd annibynnol i ystyried yr apêl | Llywodraeth Cymru | O fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn cais am drosglwyddo i asesydd annibynnol |
| Ystyried yr apêl a gwneud argymhelliad i Lywodraeth Cymru | Asesydd annibynnol | O fewn 20 diwrnod gwaith i gael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru |
| Darparu ymateb i'r person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr yn cadarnhau canlyniad yr apêl | Llywodraeth Cymru | O fewn 3-5 diwrnod gwaith o dderbyn argymhelliad gan asesydd annibynnol |

# Atodiad: Y cefndir statudol

## Adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000

1. Dan adran 31(1) o Ddeddf 2000 rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau (ymhlith eraill) bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar gyfer:
(a) addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas i ofynion y rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol ond heb gyrraedd 19 oed eto
(b) hyfforddiant addas i ofynion pobl o'r fath.

2. Mae adran 31(2) yn dweud bod cyfleusterau'n rhai priodol ('proper)' os ydynt:
(a) o nifer digonol i ddiwallu anghenion rhesymol yr unigolion
(b) o ansawdd ddigonol i ddiwallu'r anghenion hynny
(c) yn ddigonol i fodloni'r hawliau a roddwyd dan adran 33F (hawliau cwricwlwm lleol y myfyrwyr).

3. Dan Adran 32 o Ddeddf 2000, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau (ymhlith pethau eraill) bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar gyfer:
(a) addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas i ofynion y rhai sydd wedi cyrraedd 19 oed
(b) hyfforddiant addas i ofynion pobl o'r fath.

4. Wrth gyflawni eu dyletswyddau dan adrannau 31 a 32, mae Deddf 2000 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru:
(a) ystyried y lleoedd y bydd cyfleusterau'n cael eu darparu, nodweddion y cyfleusterau a'r ffordd y maent wedi eu cyfarparu
(b) ystyried galluoedd a doniau gwahanol pobl wahanol
(c) ystyried pa addysg a hyfforddiant sy'n ofynnol ar weithwyr a darpar weithwyr mewn sectorau cyflogaeth gwahanol
(d) ystyried y cyfleusterau y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl y gellir eu sicrhau'n rhesymol gan bobl eraill (gweler adrannau 31(3) a 32(3)).

## Adran 41 o Ddeddf 2000

5. Mae Adran 41(1) o Ddeddf 2000 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth gyflawni eu swyddogaethau dan adrannau 31 a 32, ystyried:
(a) anghenion pobl ag anawsterau dysgu
(b) yn enwedig, unrhyw adroddiad asesu a gynhaliwyd dan adran 140 o Ddeddf 2000 (gweler isod).

6. Dan adran 41, os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon na allant sicrhau y bydd darpariaeth cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant yn ddigonol o ran nifer ac ansawdd ar gyfer unigolyn ag anhawster dysgu sydd dros yr oedran ysgol gorfodol, ond heb gyrraedd 19 oed eto, oni bai eu bod hefyd yn sicrhau darpariaeth llety preswyl ar ei gyfer, yna rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau llety preswyl ar gyfer yr unigolyn hwnnw ag anhawster dysgu (gweler adran 41(2)).

7. Hefyd, os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon na allant sicrhau darpariaeth cyfleusterau rhesymol ar gyfer addysg neu hyfforddiant unigolyn ag anhawster dysgu sydd wedi cyrraedd 19 oed ond heb gyrraedd 25 oed oni bai eu bod yn sicrhau darpariaeth llety preswyl ar ei gyfer, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod llety preswyl yn cael ei ddarparu ar gyfer yr unigolyn hwnnw ag anhawster dysgu (gweler adran 41(3)).

## Adran 140 o Ddeddf 2000

8. Dan Adran 140 o Ddeddf 2000, os oes gan berson ifanc ddatganiad AAA dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996, a bod Gweinidogion Cymru yn credu y bydd y person ifanc yn gadael ysgol ar ddiwedd ei flwyddyn olaf orfodol er mwyn derbyn addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu addysg uwch, yna rhaid i Weinidogion Cymru drefnu i'r person ifanc gael ei asesu ar ryw adeg yn ystod ei flwyddyn olaf o addysg orfodol.

9. Ar ben hynny, mae adran 140(3) yn dweud y gall Gweinidogion Cymru, unrhyw bryd, drefnu bod asesiad yn cael ei gynnal o rywun:
(a) sydd yn ei flwyddyn olaf o addysg orfodol neu sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond nad yw'n 25 oed eto
(b) sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru fel unigolyn ag anhawster dysgu (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 41(5))
(c) sydd naill ai'n derbyn, neu sy'n debygol o dderbyn ym marn Gweinidogion Cymru, addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu addysg uwch.

10. At ddibenion adran 140, mae asesiad o unigolyn yn golygu asesiad sy'n esgor ar adroddiad ysgrifenedig:
(a) o'i anghenion addysg a hyfforddiant
(b) o'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w diwallu nhw (ei anghenion addysg a hyfforddiant) (gweler adran 140(4)).

Gweler 'Asesiad Adran 140 (LSP)' ar dudalen 7 sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y broses asesu.